Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

## 20 Mawrth 2026


| | |
|---|---|
| TEITL: | Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CJC)<br>Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi |


## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer 2026/27.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2026/27.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn ddyddiol ac fe dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Cyllid yng Nghyngor Gwynedd ac mae'n ofynnol iddynt weithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys sydd wedi ei gymeradwyo.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y CBC, gan reoli'r risgiau cysylltiedig.

4.2. Mae'r strategaeth yma wedi ei selio bod y CBC yn fuddsoddwr a bydd yn benthyca'n fewnol rhwng cynlluniau os oes angen. Os bydd y CBC yn adnabod yr angen i fenthyca'n allanol yna byddwn yn paratoi strategaeth diwygiedig ar gyfer eich cymeradwyaeth.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Mae'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27 wedi ei seilio ar Côd CIPFA a'r Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol gan Llywodraeth Cymru ac felly yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y CBC o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Mae'r adroddiad yn cyflwyno Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2026/27 sydd wedi'i baratoi yn unol â'r fframwaith proffesiynol a statudol perthnasol.

Mae cymeradwyo'r Strategaeth gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn rhan o gyfrifoldebau llywodraethu a goruchwylio'r Pwyllgor mewn perthynas â rheolaeth ariannol. Nid oes unrhyw faterion cyfreithiol penodol yn codi o'r argymhellion sydd yn yr adroddiad.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.